

COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN A GYNHALIWDYD AR ZOOM, nos Fercher, Chwefror 10fed, 2021 am saith o'r gloch

PRESENNOL

O. Hefin Roberts (Cadeirydd); G. Ian Evans (Is-gadeirydd), Angharad Correia-Martins, Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, Carys Hughes, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, William B. Williams; Cynghorwyr Dewi W. Roberts a John B. Hughes (Cyngor Gwynedd – Sylwebwyr)

YMDDIHEURIADAU

Alun Jones, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig Cyng. Carys Hughes i'w chyfarfod cyntaf fel Aelod Cyfetholedig Ward Aber-soch.

Deallwyd bod modd bod yn rhan o gyfarfod Zoom drwy ddefnyddio ffôn tŷ neu symudol hefyd i'r rhai sydd heb gyfrifiadur ac, o ganlyniad, rhoddwyd manylion heno i'r Cyng. Alun Jones ond, ni lwyddodd ymuno.

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd Cyng. Robert M. Jones fuddiant personol yng nghais cynllunio C21/0072/39/DT – Ffurio estyniad a chyntedd ystafell fwyta newydd â tho unllethr newydd wedi'i orchuddio â llechi i ymestyn dros do gwastad presennol i un unllethr newydd wedi'i orchuddio â llechi – Bryn Einion, Llanengan, oherwydd cysylltiad teuluol.

2. CADARNHAU COFNODION

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ionawr 13eg, 2021 yn gywir.

3. EITEMAU BRYD (Cadeirydd/Clerc) – Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

- a) **Apêl Cynllunio Tŷ Wiggins, 12 Lôn Cernyw, Bwlchtocyn**
Derbyniwyd hysbyseb o'r uchod a chysylltodd Cyng. John B. Hughes yn gofyn i'r Cyngor dynnu ei gefnogaeth yn ôl ond, gan na chaniateir penderfyniad ar unrhyw fater brys, ni ellid gwneud hynny.

4. CEISIADAU CYNLLUNIO

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C19/0519/39/LL **Cais Diwygiedig** – Adeiladu tŷ annedd (dyluniad diwygiedig i'r hyn a ganiatawyd yng nghais 2/19/69A) – Tir ger Gilfach Goed, Lôn Pen Cei, Aber-soch – **Cedwir at sylwadau gwreiddiol y Cyngor, sef:**
“Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad a fuasai'n gorlenwi safle

cyfng amlwg mewn AHNE a thynnu sylw o bob ffordd fynediad i mewn i'r pentref. Mae'n ddyluniad anaddas sydd gryn dipyn uwch (tri llawr o gymharu ag un) na'r dyluniad a ganiatawyd yn wreiddiol – buasai'n rhaid cloddio'n ddwfn i'r graig ar gyfer ei sylfeini. Mynegwyd, hefyd, bod gormod o wydr ynddo a fuasai'n amharu ar breifatrwydd cymdogion."

- C20/1087/39/DT Newid defnydd o ddsbarth defnydd C1 presennol (gwely a brecwast) i ddefnydd dosbarth C3 (tŷ preswyl), ynghyd ag addasiadau allanol – Creigle, Lôn Gwydryn, Aber-soch - **Cefnogir**
- C21/0017/39/HY Arwyddion ffasgia a chrog – Aber House, Stryd Fawr, Aber-soch – **Cefnogir**
- C21/0032/39/DT Addasiadau i deras/balconi blaen, ynghyd â chodi estyniad a chreu ardal allanol ar y cefn – Tideways, Lôn Pen Cei, Aber-soch – **Cefnogir**
- C21/0043/39/LL Creu ardal eistedd allanol wedi'i orchuddio – Crust, Uned 1, The Haven, Lôn Garmon, Aber-soch – **Cefnogir**
- C20/1047/39/DT **Cais Diwygiedig** – Estyniadau ac addasiadau – Corner House, Lôn Golff, Aber-soch – **Cefnogir**
- C21/0072/39/DT Ffurio estyniad a chyntedd ystafell fwyta newydd â tho unllethr newydd wedi'i orchuddio â llechi i ymestyn dros do gwastad presennol i'r gegin a throsi to gwastad y cyntedd presennol i un unllethr newydd wedi'i orchuddio â llechi – Bryn Einion, Llanengan – **Cefnogir [Datgan Diddordeb – RMJ]**
- C21/0086/39/DT Ailfodelu'r to presennol i ffurfio lefel llawr cyntaf newydd â newid mewnol, ynghyd ag adeiladu garej/tŷ cychod ar wahân newydd – Lee Bank, Lôn Traeth, Aber-soch – **Cefnogir, gan ofyn am amod mai garej/ tŷ cychod yn unig fydd o**
- C21/0094/39/LL Estyniad i adeilad cawodydd presennol – Deucoch Camping & Touring Site, Aber-soch – **Cefnogir**

Adroddodd Cyng. Dewi W. Roberts bod trafferthion defnyddio Dilyn a Darganfod ar iPhone – hysbysodd yr Adran Gynllunio eisoes.

5. **MATERION YN CODI**

- a) **12. Ysgol Aber-soch**
Daw'r ymgynghoriad i ben ar Chwefror 23ain.
- b) **16. Gohebiaeth: ng) O Ddrws i Ddrws – Cais am Gyfraniad at Gario Cleifion i Apwyntiadau Meddygol a Gwahoddiad i Ymuno â'r Bwrdd Rheoli**
Derbyniwyd ymateb pellach i'r ymholiad am faint a ddefnyddiodd y gwasanaeth o'r gymuned hon cyn penderfynu ar swm y cyfraniad ag ymddiheuriad am y camddealltwriaeth. Gweler 9. Materion Cyllidol – Awgrymiadau'r Is-bwyllgor Ariannol isod.
- c) **15. Cynnig Cyng. Erfyl W. Roberts**
Cysylltodd Clerc Cyngor Nefyn i holi mwy am y cynllun cyn penderfynu cyfrannu ai peidio. Dylai'r cyfrifiaduron gyrraedd mis yma.
- ch) **16. Gohebiaeth: a) Cydlynnydd Partneriaethau Natur Lleol Gwynedd – Tir Mynytho**
Derbyniwyd adroddiad oddi wrth Joanna Porter yn nodi bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gefnogol iawn i'r cynnig o greu gardd/gweirglodd flodau gwyllt ar Lain y Pentref –

mae'n cyd-fynd â bwriad y cytundeb. Nid yw'r 'darn melyn' a amlinellir ar y cynllun yn rhan o'r cytundeb – cadarnhawyd mai'r Cyngor yw ei berchennog. Cafodd air â'r contractwr hefyd ac roedd yntau'n fodlon newid ei amseroedd torri. Penderfynwyd gofyn iddi ddechrau'r prosiect.

- d) **15. Gohebiaeth: b) Ail-lenwi Cymru**
Derbyniwyd ateb am y sefyllfa o ran defnyddio ffowntenni dŵr o ganlyniad i'r Coronafeirws.

- dd) **15. Gohebiaeth: c) Roy Milnes, Aberdaron – 'Dark Skies'**
Yn anffodus, y Clerc oedd yr unig un a fynychodd y cyfarfod rhithiol a drefnwyd gan AHNE i wrando ar gyflwyniad Dani Robertson, Cydlynnydd Partneriaeth Awyr Dywyll Gogledd Cymru sy'n gweithio i Barc Cenedlaethol Eryri, ar Awyr Dywyll. Mynegwyd siomedigaeth am y diffyg cefnogaeth a'r amarch i'r siaradwr, gan y gofynnodd tua hanner dwsin o gynghorau am y linc. Derbyniwyd copi o'r cyflwyniad – anfonir at bawb. Eglurodd Bleddyn P. Jones, Swyddog AHNE, mai'r bwriad yw derbyn cefnogaeth Cyngorau Cymuned a Thref ar gyfer ymgeisio am y teitl o ardal Awyr Dywyll; penderfynwyd cefnogi'r bwriad.

- e) **15. Gohebiaeth: ch) Anna E. Jones – Grisau ar Lôn Pont Morgan**
Cysylltwyd â'r Gofrestrfa Tir yn dilyn methu â chael manylion ar y wefan – argraffwyd y ffurflen ymholiad hyd yma.

- f) **Ciosg BT Stryd Fawr, Aber-soch – Diffribiliwr**
Derbyniwyd derbynneb am yr arian oddi wrth Awyr Las a chysylltwyd â BT i ofyn pryd dynnir yr offer – gwnaed ym mis Rhagfyr 2019 oedd yr ateb...! Dal yno!

- ff) **16. Gohebiaeth: dd) Jonty Torr – Ymchwil ar gyfer Traethawd 'The Impact of Second Home Tourism on the Rural Communities in Gwynedd'**
Cyfwelwyd y Clerc ar gyfer yr uchod ac anfonwyd holiadur at bawb – a thrigolion eraill hefyd – ychydig ddyddiau wedyn. Ymatebwyd yn rhagorol yn ôl y sôn.

6. MYNWENT Y BWLCH

- a) **Arwyddion Ysbwriel**
Deil ymwelwyr anwybyddu'r arwyddion ar y giatau ynglŷn â gadael hen flodau ac ysbwriel. Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth yr Henaduriaeth. Deallwyd mai gwirfoddolwyr sydd yn un o ddwy o'r mynwentydd eraill hefyd.

7. CAEAU CHWARAE

- a) **Grant Chwarae ar gyfer Parciau Chwarae Llywodraeth Cymru**
Deallwyd bod nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn llawer mwy na'r arian oedd ar gael a chan mai'r cyntaf i'r felin oedd y drefn fe'i clustnodwyd i gyd. Bydd rhaid trefnu ailosod y goliau'n iawn yng Nghae Chwarae Mynytho. Holwyd Caloo, cwmni'r trac beiciau, am y posibilrwydd o'i baentio ag arwyddion ffyrdd ond, ni dderbyniwyd ateb hyd yma.

- b) **Archwiliad Iechyd a Diogelwch**
Archebwyd archwiliad oddi wrth Wicksteed – disgwylir dyddiad.

8. MATERION CYLLIDOL

a) **Cyflenwad Trydan Toiledau Lôn Traeth**

Cysylltodd cwmni broceriaid arall yn cynnig ei wasanaeth ond, yn anffodus, yr un yw'r broblem o ran gwiriad credyd. Cysylltwyd ag ULIC am gyngor ac awgrymwyd y dylid egluro mai corff statudol a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yw'r Cyngor ac y ffurfia haen isaf llywodraeth leol yng Nghymru. Hefyd, nodi nad oes gennym gofrestrriad busnes nac elusennol fel corff statudol. Awgrymodd y brocer y buasai'n haws gofyn i E-on ailgofrestru'r Cyngor er y gallasai'r cytundeb newydd fod yn ddrutach. Mae'r defnydd isel yn ein herbyn hefyd. Penderfynwyd cysylltu eto.

b) **Meinciau Solar**

Ni wnaed dim pellach. Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Alys Lloyd Jones parthed y Grant Canol Trefi ar gyfer gosod dwy fainc solar yng nghanol Aber-soch; ni dderbyniodd Cyngor Gwynedd lythyr yn cynnig grant gan Lywodraeth Cymru hyd yma – cais trwy'r Aelod Lleol oedd hwn.

c) **Llunio a Chyhoeddi Cyfrifon Ariannol Statudol ar gyfer 2020 – 2021**

Hysbysiad y cedwir at yr un trefniadau â'r flwyddyn ariannol ddiwethaf o ran cwblhau'r cyfrifon, sef y bydd yn ofynnol llunio ac ardystio cyfrifon drafft erbyn Awst 31ain a chyhoeddi'r rhai terfynol wedi'u harchwilio erbyn Tachwedd 30ain. Gobeithir eu cwblhau cyn Mehefin 30ain fel arfer.

ch) **Cynyddu'r Praesept yn sgil y posibilrwydd o Gynyddu Treth Ailgartrefi**

Yn dilyn trafodaeth fanwl am y sefyllfa, penderfynwyd gadael y praesept fel y mae, sef £55,000 gan y gellir ei gynyddu at y flwyddyn ariannol 2022 – 2023 beth bynnag. Derbyniwyd cyflwyniad o arolwg a gomisiynodd Cyngor Tref Abermaw i dai haf yn yr ardal mewn atebiad i'r posibilrwydd o gynyddu treth ailgartrefi – anfonir copi at bawb.

d) **Awgrymiadau'r Is-bwyllgor Ariannol**

Ymddiheurwyd i'r Cyng. Robert M. Jones – anfonwyd linc Zoom y cyfarfod at y person anghywir. Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod neithiwr ac awgrymwyd y dylid cyfrannu lleiafswm o gan punt o hyn allan – fe'i derbyniwyd. Penderfynwyd cadarnhau pob un o'r awgrymiadau – gweler 16. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

9. MATERION CYNLLUNIO

a) **Apêl Tŷ Wiggins, 12 Lôn Cernyw, Bwlchtochyn**

Derbyniwyd yr uchod er gwybodaeth, gan na ellir anfon sylwadau oherwydd mai cais deiliad tŷ ydoedd. Fe'i trafodwyd yn 2. Eitemau Brys uchod hefyd.

b) **Gorfodaeth (Amrywiol)**

Derbyniwyd gohebiaeth yn hysbysu nad yw'r estyniad sy'n cael ei adeiladu yn Aberview, Lôn Garmon, Aber-soch, angen caniatâd cynllunio gan fod y datblygiad yn un y caniateir dan Ddatblygiad Cyffredinol a Ganiateir. Ni dderbyniwyd ymateb i'r pump arall.

c) **Cyngor Tref Nefyn – Y Farchnad Dai Gwyliau**

Copi o lythyr oddi wrth Catrin Roberts, Cadeirydd y Cyngor, yn mynegi pryder am yr uchod, ynghyd â llythyr templed y gellid ei anfon at Julie James, AS, Gweinidog Tai; penderfynwyd cefnogi'r cais.

10. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Arwyddion Haearn Bwrw**

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf, cysylltodd Cyng. Angharad Correia-Martins i ddweud fod ei thad-yinghyfraith yn cynnig paentio'r arwyddion pan fydd y tywydd wedi gwella – penderfynwyd derbyn ei gynnis a diolch iddo.

b) **Cau Ffyrdd**

Derbyniwyd copi o Rybudd yn hysbysu y caeid ffyrdd:

- i) gyferbyn â Bodnant, Bwlchtocyn, ar Ionawr 27ain
- ii) o'r gyffordd â Bryn Llewelyn i Nant Rhiwdar, Mynytho ar Chwefror 3ydd
- iii) ger Bryncelyn Uchaf, Cilan ar Chwefror 17eg.

Tueddir i'w derbyn ar ôl i'r ffyrdd gau.

c) **Biniau Halen**

Yn dilyn derbyn ymholiadau am yr uchod yn ystod y tywydd rhewllyd diweddar, deallwyd y tynnwyd yr un ger Tŷ Hir, Mynytho, oherwydd na thalodd y Cyngor amdano! Ail-anfonwyd copi o benderfyniad y Cyngor barhau â'r cynnis o gael llenwi pob bin yn y gymuned ar ddechrau'r gaeaf a'u hail-lenwi ar gais y gymuned rhwng Hydref 1af ac Ebrill 30ain ar Fedi 18fed, 2018. Eglurwyd mai dim ond pan fyddai adnoddau yn caniatáu y trefnid i'r gweithlu eu llenwi, gan mai blaenoriaeth yr Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol fyddai cadw'r prif gylchdeithiau graeanu ar agor a'r gwaith graenu adweithiol. Penderfynwyd, ar ôl trafodaeth, beidio â'u llenwi a phe ceid tywydd rhewllyd eto yn ystod yr wythnosau nesaf, gellid cyfeirio ymholiadau at brynu bagiau gro/graenu o'r archfarchnadoedd.

ch) **Baw Cŵn ym Mynytho**

Derbyniwyd e-bost oddi wrth Cyng. Catherine Ll. Morris yn dweud y derbyniodd alwad ffôn a chopi o sylw am y diffyg biniau baw cŵn ym Mynytho – fe'i hanfonwyd ymlaen i'r Adran Fwrdeistrefol. Ategodd y ddau Aelod Lleol y derbynion hwythau gwynion hefyd, ynghyd â nodi na ellir beio ymwelwyr tro yma.

11. **MATERION HAWLIAU TRAMWY**

a) **Ail-gategoreiddio'r Llwybrau**

E-bostiwyd yr Uwch Swyddog Hawliau Tramwy i geisio trefnu cyfarfod ar Zoom i drafod yr uchod cyn hysbysebu tendr torri'r llwybrau. Fe'i hysbyswyd am faterion eraill hefyd ond, ni dderbyniwyd ateb oddi wrtho.

12. **TRAETHAU**

Er nad oedd dim i'w drafod, adroddodd Cyng. John B. Hughes y cwblhawyd y gwaith gwella ym Marchros. Derbyniodd Uned AHNE Llŷn a'r Uned Forwrol grant gan Lywodraeth Cymru

i'w wneud, sef trwsio'r lôn ger y fynedfa i'r traeth a chreu grisiau newydd i'r safle picnic ger y maes parcio.

13. ARWYDDBYST PREN

Ni dderbyniwyd ymateb oddi wrth Sioned Mair Williams, yr arlunydd/cynllunydd.

14. GOHEBIAETH

a) Un Llais Cymru (ULIC)

- i) **Cofrestrfa Tir EM – Arolwg o Gyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru**
Cydweithir â Llywodraeth Cymru a San Steffan i gofrestru holl dir cyrff y sector cyhoeddus erbyn 2025. Dyddiad cau yw Chwefror 26ain.
- ii) **Lleoedd Rhad ac am Ddim Ychwanegol ar gael ar gyfer y Modylau Craidd a Dyddiadau Hyfforddiant mis Chwefror**
Gwybodaeth am yr uchod.
- iii) **Cysylltu â'ch Cymuned Leol – Canllaw Cyfathrebu i Gyngorwyr Cymuned a Thref Cymru a'u Clercod – Cyfryngau Digidol**
Copi o'r uchod er gwybodaeth/gweithrediad – anfonir copi at bawb.
- iv) **Eich Tref, Eich Dyfodol!**
Arolwg ar ddyfodol trefi Cymru gan Archwilio Cymru.
- v) **Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor**
Fe'i cynhelir heno – ymddiheurwyd na allai neb ei fynychu.

b) Cyng. John B. Hughes – Grant Hwb Rhannu Bwyd

Copi, er gwybodaeth, am yr uchod – linc sy'n rhannu gwybodaeth am y grant.

c) Healthmatic Ltd. – 'Five Ways to Reduce Costs and Improve Benefits of a New Public Toilet'

Gwybodaeth am yr awgrymiadau i leihau costau rhedeg toiledau cyhoeddus. Tri chynnig yw gosod taliad digyffwrdd, systemau agor a chau o bell a chynorthwyo mynd i'r afael â newid hinsawdd. Edrychir ymhellach i'r cynigion, yn arbennig ar ôl y trafferthion a gafwyd â'r drysau'r wythnos hon – ond, a allai fod o ganlyniad i'r tywydd rhewllyd.

17. DYFARNIADAU CYNLLUNIO

C20/0528/39/LL	Creu mynedfa gerbydol a ffordd fynediad newydd – Bwlchtocyn Ffarm, Bwlchtocyn – Caniatawyd ag amodau
C20/0756/39/LL	Newid defnydd o eiddo gwely a brecwast (Dosbarth Defnydd C1) i annedd (Dosbarth Defnydd C3) – Angorfa, Lôn Sarn Bach, Aber-soch – Gwrthodwyd
C20/0835/39/AC	Cais i ddiddymu Amod 3 o Ganiatâd Cynllunio 34/64/371'C' ar gyfer safle carafanau er caniatáu defnyddio'r carafanau trwy gydol y flwyddyn – Glyn Caravan Club, Lôn Garmon, Aber-soch – Caniatawyd ag amodau
C20/0849/39/DT	Estyniad gromen ac adnewyddu'r balconi – 83 Cae Du, Aber-soch – Caniatawyd ag amodau
C20/0936/39/LL	Creu mynedfa newydd i'r fferm – Bodlondeb, Lôn Cernyw, Sarn Bach – Caniatawyd ag amodau

C20/0954/39/LL	Newid defnydd rhan o gyn-feddygfa at ddefnydd mân-werthu – Meddygfa Lôn Sarn Bach, Aber-soch – Caniatawyd ag amodau
C20/0955/39/DT	Ymestyn feranda ar gefn yr eiddo – 15 Tan-y-Gaer, Aber-soch – Caniatawyd ag amodau
C20/0972/39/DT	Dwy ffenestr gromen newydd yn yr edrychiad cefn – 26 Ystâd Cornwall, Mynytho – Caniatawyd ag amodau
C20/0995/39/LL	Newid defnydd uned mân-werthu llawr daear presennol o ddefnydd dosbarth A1 i A3 caffi a pharlwr hufen iâ a fyddai'n creu un uned â chaffi a pharlwr hufen iâ presennol cyfochrog – Two Islands, Lôn Pen Cej, Aber-soch – Caniatawyd ag amodau
C20/0997/39/DT	Codi adeilad gardd pren newydd yn lle adeilad presennol – Rushmere, Lôn Sarn Bach, Aber-soch – Caniatawyd ag amodau
C20/1003/39/TC	Cais Tystysgrif Cyfreithloni defnydd ar gyfer defnydd bwriadedig o godi estyniad cegin unllawr cefn ac ochr – Caerwyn, Llangian – Caniatawyd (TC yn unig)

18. CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU

Taliadau

Cadarnhawyd talu cyflog mis Chwefror (Rh/S 002333) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

- a) Ysgol Botwnnog – £750.65 (Rh/S 002334 – Cyfrifiaduron)
- b) E-on – £19.90 (D/U – Cyflenwad Trydan y Toiledau)
- c) Bacstal PAC – £119.14 (D/U – Gwasanaeth Paratoi Cyflogau hyd at 30/06/20)
- ch) Tŷ Gobaith – £200.00 (Rh/S 002335 – Cyfraniad)
- d) Y Groes Goch – £100.00 (Rh/S 002336 – Cyfraniad)
- dd) Tenovus – £100.00 (Rh/S 002337 – Cyfraniad)
- e) Marie Curie Gwynedd – £300.00 (Rh/S 002338 – Cyfraniad)
- f) O Ddrws i Ddrws – £750.00 (Rh/S 002339 – Cyfraniad)
- ff) Cerebral Palsy Cymru – £100.00 (Rh/S 002340 – Cyfraniad)
- g) Ambiwylans Awyr Cymru – £1000.00 (Rh/S 002341 – Cyfraniad)
- ng) Radio Ysbyty Gwynedd – £200.00 (Rh/S 002342 – Cyfraniad)
- h) Ffermwyr Ifanc Eryri – £300.00 (Rh/S 002343 – Cyfraniad)
- i) Eisteddfod yr Urdd – £300.00 (Rh/S 002344 – Cyfraniad)
- l) Dawns i Bawb – £150.00 (Rh/S 002345 – Cyfraniad)
- ll) Eisteddfod Ryngwladol Llangollen – £100.00 (Rh/S 002346 – Cyfraniad)
- m) Theatr Bara Caws – £150.00 (Rh/S 002347 – Cyfraniad)

Derbyniadau

- a) SP Manweb – £3.57 (Wayleave)
- b) Geraint Parry, Ymgymwrwr – £270.00 (Bedd Newydd)

19. DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF

Nos Fercher, Mawrth 10fed, 2021 am saith o'r gloch ar **Zoom – Cyfarfod Blynyddol**